



**Cymeradwywyd 25 Mai 2021**

## **Diben y Pwyllgor**

Mae'r pwyllgor yn un anstatudol a sefydlwyd i fonitro a goruchwyllo gweithrediad a pherfformiad datblygiadau allweddol ym mhob maes cwricwlwm ac ansawdd. Mae hyn yn cynnwys prif lif llawn amser, prif lif rhan amser, Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL), Cymraeg i Oedolion (WfA) a Dysgu ar sail Gwaith (WBL)/Prentisiaethau.

Dim ond fel y dirprwywyd yn benodol iddo gan y Gorfforaeth y mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb gweithredol.

### **1. Prif Gyfrifoldebau**

- 1.1 Derbyn diweddariadau ar faterion Llais y Dysgwr a gwneud awgrymiadau ar gyfer gweithgaredd Llais y Dysgwr.
- 1.2 Sicrhau bod y Coleg yn bodloni gofynion cyfreithiol fel maent yn gymwys i fyfyrwyr, gan gynnwys Diogelu, Atal, Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, derbyniadau etc.
- 1.3 Archwilio dangosyddion ansawdd ar safonau cyffredinol o ddarpariaeth. I gynnwys adrodd am gwynion, cynnydd yn erbyn y Strategaeth Addysgu a Dysgu, IQA/EQA etc.
- 1.4 Archwilio a herio meysydd pwnc lle mae angen gwella perfformiad/safonau.
- 1.5 Goruchwyllo strategaeth Cwricwlwm y Coleg a monitro datblygiad y Cynllun Cwricwlwm, gan sicrhau ei fod yn gyraeddadwy ac yn bodloni gofynion a thargedau Llywodraeth Cymru. I gynnwys monitro derbyniadau yn erbyn targedau.
- 1.6 Goruchwyllo gweithrediad ac effaith mentrau cwricwlwm newydd (e.e. Colegau Gyrfaoedd, Sgiliau etc.).
- 1.7 Adolygu'r strategaeth dysgu seiliedig ar waith a monitro perfformiad.
- 1.8 Adolygu a chymeradwyo polisiau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig ag ansawdd a chwricwlwm Haen 2 sy'n cael eu dosbarthu gan y Bwrdd.

### **2. Cyfrifoldebau Ymgynghorol**

- 2.1 Adolygu'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol ar gyfer argymhell i'r Bwrdd (gan sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru).
- 2.2 Adolygu'r Strategaeth a pherfformiad AU ac awgrymu'r Datganiad Sicrwydd Academaidd Blynyddol i'w gymeradwyo gan y Bwrdd.

## 2.3 Cyngori'r Bwrdd ar bolisiau Haen 1 perthnasol

### 3. Cyfrifoldebau Arolygol

- 3.1 Monitro gweithrediad y Cynllun Datblygu Ansawdd a'i effaith yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol.
- 3.2 Monitro ac asesu effaith Fforymau Cyflogwyr wrth ddatblygu cwricwlwm i fodloni gofynion cyflogwyr ac i ymateb i Flaenoriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

### 4. Materion ychwanegol

- 4.1 Bydd y Swyddog Llywodraethu yn gweithredu fel Clerc i'r pwyllgor.
- 4.2 Bydd y pwyllgor yn ymdrin ag unrhyw fater arall a gyfeirir ato gan y Bwrdd.
- 4.3 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar weithgareddau'r pwyllgor i'r Bwrdd.
- 4.4 Bydd y Swyddog Llywodraethu yn sicrhau bod copïau o'r cofnodion (neu gofnodion drafft) yn cael eu dosbarthu i bob aelod o'r Gorfforaeth er gwybodaeth ar gyfer y cyfarfod Bwrdd priodol nesaf.
- 4.5 Bydd y Cylch Gorchwyl hwn yn cael ei adolygu'n FLYNYDDOL

#### **Aelodaeth:**

**9**

Yn cynnwys: 5 Llywodraethwr Annibynnol  
1 Llywodraethwr Staff Addysgu  
1 Llywodraethwr Myfyrwyr (AB)  
1 Llywodraethwr Myfyrwyr (AU)  
Pennaeth/Prif Weithredwr

Gellir penodi rhagor o Aelodau Allanol, ac mae gan y pwyllgor hawl i gael cyngor annibynnol a phroffesiynol gan unigolion nad ydynt yn aelodau sydd â phrofiad neu arbenigedd perthnasol, a'u gwahodd i fynychu ei gyfarfodydd.

#### **Cworwm:**

50% - i gynnwys lleiafswm o 2 Llywodraethwr annibynnol

#### **Amllder y cyfarfodydd:**

4 gwaith y flwyddyn